Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Cymelliannau hyfforddi athrawon yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr TAR

Cyrsiau sy'n arwain at statws athro cymwysedig 2010/11

Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth Rhif: 092/2010
Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2010

Cymelliannau hyfforddi athrawon yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr TAR

Cynulleidfa Myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2010/11.

Trosolwg Ceir yn y ddogfen hon wybodaeth am y cymelliannau hyfforddi athrawon. Nodir pa arian sydd ar gael, pwy sy'n gymwys i gael y grantiau a sut y cânt eu talu.

Camau i'w cymryd Dim – er gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth

Geoff Hanbury
Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn 029 2082 5171
Ffacs: 029 2082 6109
e-bost: teachingenquiries@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

ISBN 978 0 7504 5829 0
© Hawlfraint y Goron 2010
WAG10-10493
F4451011

Cynnwys

Y Cefndir **1**

1. Cymelliannau hyfforddi athrawon yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2010/11 – trosolwg **2**

2. Grantiau hyfforddi **4**

Bod yn gymwys i gael grantiau hyfforddi 4
Pa grantiau y dylid eu talu 4
Pryd y dylid gwneud y taliadau 6
Sut y telir y grantiau hyfforddi 6
Adennill grantiau a dalwyd 6

3. Grantiau addysgu **8**

Y grantiau addysgu: crynodeb 8
Y trefniadau yng Nghymru a Lloegr 8
Bod yn gymwys i gael grantiau addysgu yng Nghymru 9
Sut y telir y grantiau addysgu yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru 10
Adennill grantiau a dalwyd 11
Trefniadau ar gyfer athrawon sy'n gweithio yn Lloegr 11

4. Cwestiynau cyffredin **12**

Grantiau hyfforddi yng Nghymru 12
Grantiau addysgu yng Nghymru 12

Atodiad: Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2010 **16**

Y Cefndir

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 i gynnig cymorth ariannol ar gyfer hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu. Roedd y pwerau hyn yn wreiddiol yn perthyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru ar 26 Mai 2007. Mae gan is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn trosglwyddo'r swyddogaethau i Weinidogion Cymru rym cyfreithiol o hyd.

Lluniwyd Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2010 (2010 Rhif 27) ("y Cynllun") gan Weinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a oedd ganddynt ar 12 Gorffennaf 2010. Ceir copi o'r Cynllun ynghlwm wrth yr atodiad i'r nodyn cyfarwyddyd hwn. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru dalu grantiau, ar ffurf cymelliannau, i bersonau cymwys ymgymryd â chwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) ôl-raddedig yng Nghymru mewn pynciau penodedig ac i bersonau cymwys gymryd swyddi addysgu neilltuol mewn pynciau penodedig am gyfnodau gofynnol o amser.

Dyma'r cyfarwyddyd y cyfeirir ato ym mharagraff 3 o'r Cynllun, ac y mae'n rhaid i bwy bynnag sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth o dan y Cynllun dalu sylw iddo. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i fyfyrwyr yng Nghymru sy'n dechrau rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011 ar gyrsiau HCA a fydd yn arwain at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig a gynhelir gan ddarparwyr hyfforddiant athrawon sydd wedi eu hachredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Cyhoeddir y cyfarwyddyd hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n cynnig gwybodaeth am y cymelliannau hyfforddi athrawon. Mae'n amlinellu pa gyllid sydd ar gael, pwy sy'n gymwys i gael grant a sut y gwneir taliadau. Nid yw'r cyfarwyddyd ei hun yn sefydlu pa gyllid sydd ar gael, pwy sy'n gymwys i gael grant nac unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â'r grant - mae'r rhain i'w cael yn y Cynllun a dylai hwnnw gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r cyfarwyddyd hwn er mwyn cadarnhau a yw grant ar gael ai peidio.

Nid yw'r canllawiau hyn yn ymwneud â chymelliannau a gynigir ar gyrsiau HCA sy'n cael eu darparu gan y Brifysgol Agored na chyrsiau sy'n arwain at gymwysterau addysg bellach.

1. Cymelliannau hyfforddi athrawon yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2010/11 - trosolwg

1.1 Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg cryno o'r cymelliannau hyfforddi athrawon ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011. Nid yw'n ymdrin â phob agwedd; ceir yr holl wybodaeth isod ynghylch pwy sy'n gymwys a'r amodau.

1.2 Mae'r cymelliannau hyfforddi athrawon yn cynnwys grantiau fel cymhelliant i fyfyrwyr cymwys ddilyn cwrs HCA ôl-raddedig yng Nghymru ('grantiau hyfforddi'). Mae'n rhaid i'r cwrs arwain at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig, mae'n rhaid iddo ddechrau rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011, a chael ei gynnal gan ddarparwr HCA sydd wedi'i achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae cyfeiriadau at gyrsiau ôl-raddedig neu gyrsiau TAR yn cynnwys y cymwysterau canlynol - Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg, Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion a Diploma Ôl-raddedig mewn Addysg.

1.3 Mae'r grantiau hyfforddi ar gyfer cyrsiau HCA ôl-raddedig yng Nghymru sy'n dechrau rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011 fel a ganlyn:-

i. £9,000 ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n astudio yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar lefel ysgol uwchradd un neu ragor o'r pynciau canlynol sef mathemateg, ffiseg, cemeg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), dylunio a thechnoleg neu Gymraeg;

ii. £6,000 ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n astudio yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar lefel ysgol uwchradd un neu ragor o'r pynciau canlynol sef cerddoriaeth, addysg grefyddol, ieithoedd tramor modern, Saesneg, daearyddiaeth, bioleg neu gyrsiau cyffredinol neu gyfun mewn gwyddoniaeth;

iii. £4,000 ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n astudio yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar lefel ysgol uwchradd unrhyw bwnc ac eithrio'r rhai sydd wedi'u rhestru yn 1.3 i neu ii uchod ac ar gyfer myfyrwyr cymwys ar gyrsiau ôl-raddedig cynradd.

1.4 Mae'r cymelliannau hyfforddi athrawon yn cynnwys grantiau fel cymhelliant i fyfyrwyr cymwys ymgymryd â swyddi addysgu penodol mewn pynciau penodedig ar gyfer lleiafswm penodol o amser ('grantiau addysgu'). Ar gyfer pynciau mathemateg, ffiseg a chemeg gellir talu grant addysgu o £5,000. Ar gyfer TGCh, dylunio a thechnoleg a Chymraeg mae'n bosibl y ceir grant addysgu o £2,500. Er mwyn cael pob un o'r grantiau addysgu, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gwrdd â'r amodau canlynol:-

i. eu bod wedi hyfforddi mewn pwnc penodedig ar lefel uwchradd ôl-raddedig a ddechreuodd rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011, eu bod wedi derbyn grant hyfforddi a'u bod wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus;

ii. eu bod wedi cwblhau eu cyfnod ymsefydlu yn llwyddiannus; a

iii. oddi mewn i 12 mis o gwblhau eu cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, eu bod wedi sicrhau cyflogaeth mewn 'swydd berthnasol' ac wedi dechrau ar y swydd gan addysgu'r un pwnc.

1.5 Ni thelir unrhyw grant i unrhyw un oni bai ei fod wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru, o dan ofal Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn fformat a gymeradwyir. Gofynnir i'r myfyrwyr gwblhau'r ffurflenni perthnasol gan eu darparwr HCA.

2. Grantiau hyfforddi

Bod yn gymwys i gael grantiau hyfforddi

2.1 Mae'r grantiau hyfforddi £4,000, £6,000 a £9,000 ar gael i'r rhai sy'n dechrau ar gyrsiau HCA ôl-raddedig yng Nghymru rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011[1]. Mae'n rhaid i'r cyrsiau arwain at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig a chael eu cynnal gan ddarparwr HCA sydd wedi ei achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'r grantiau hyfforddi ar gael ar gyfer cyrsiau amser llawn a rhan amser fel ei gilydd.

2.2 Mae gan Weinidogion Cymru y disgresiwn i beidio â thalu grant hyfforddi i fyfyrwyr sydd wedi eu derbyn ar gwrs HCA ôl-raddedig ar ôl i darged derbyn y cwrs hwnnw, a bennwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gael ei gyrraedd. Dylai myfyrwyr gael cadarnhad gan eu darparwr nad yw hyn yn effeithio arnynt.

2.3 I fod yn gymwys i gael grant hyfforddi, mae'n rhaid i rywun fodloni'r gofynion canlynol:-

a. ei fod yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs HCA ôl-raddedig yng Nghymru;
b. ei fod yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer myfyrwyr sy'n gymwys am gymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 sydd mewn grym ar yr adeg y maent yn gwneud cais am y cwrs hwnnw[2];
c. nad yw eisoes yn athro cymwysedig;
d. nad yw'n cael ei gyflogi i addysgu mewn ysgol neu ryw sefydliad addysg arall fel athro;
e. nad yw'n cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth; a
f. nad yw'n ymgymryd â chwrs addysg bellach o unrhyw fath.

Pa grantiau y dylid eu talu

2.4 Er mwyn bod yn gymwys i gael grant hyfforddi o hyd at £9,000, mae'n rhaid i rywun fod yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs HCA ôl-raddedig a gychwynnodd rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011, a'i fod yn astudio mathemateg, ffiseg, cemeg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), dylunio a thechnoleg neu Gymraeg ar lefel uwchradd. Telir y grant hyfforddi o £9,000 mewn naw rhandaliad misol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Mehefin, yn daladwy ar wythnos olaf

[1] Petai darparwr HCA yn mynnu bod myfyrwyr yn mynychu ysgol cyn bod y cwrs HCA yn dechrau yn ffurfiol, cyn belled â bod y cwrs yn dechrau yn ffurfiol ar ôl 31 Awst 2010, byddent yn dal i fod yn gymwys i gael y grant hyfforddi.

[2] Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2009 (OS 2009/2737).

pob mis. £900 fydd y taliadau o fis Hydref i fis Mai; a £1,800 fydd y taliad terfynol ar gyfer mis Mehefin.

2.5 Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am grant hyfforddi o hyd at £6,000, mae'n rhaid i rywun fod yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs HCA ôl-raddedig a ddechreuodd rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011 a'i fod yn astudio cerddoriaeth, addysg grefyddol, ieithoedd tramor modern, Saesneg, daearyddiaeth, bioleg neu gwrs cyffredinol/cyfun mewn gwyddoniaeth, ar y lefel uwchradd. Telir y grant hyfforddi o £6,000 mewn naw rhandaliad misol ar gyfer y cyfnod o fis Hydref i fis Mehefin, a bydd yn daladwy yn wythnos olaf pob mis. £600 fydd cyfanswm y taliadau o fis Hydref i fis Mai; £1,200 fydd y taliad terfynol ar gyfer mis Mehefin.

2.6 Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am grant hyfforddi o hyd at £4,000, mae'n rhaid i rywun:

a. fod yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs HCA ôl-raddedig a ddechreuodd rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011 gan astudio drama, hanes, astudiaethau busnes, celf, ac addysg gorfforol ar y lefel uwchradd; neu
b. fod yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs HCA ôl-raddedig a ddechreuodd rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011 ar y lefel gynradd.

Telir y grant hyfforddi mewn naw rhandaliad misol o fis Hydref i fis Mehefin, a bydd yn daladwy yn ystod wythnos olaf pob mis. Bydd y taliadau o fis Hydref i fis Mai yn £400; £800 fydd y taliad olaf ar gyfer mis Mehefin.

2.7 **Noder:** at ddibenion paragraffau 2.4, 2.5 a 2.6, "wythnos olaf" pob mis yw'r wythnos sy'n cynnwys y diwrnod gwaith olaf yn y mis hwnnw, heblaw am fis Mehefin, a "diwrnod gwaith" yw diwrnod heblaw am ddydd Sadwrn neu ddydd Sul pan fo banciau ar agor i gynnal busnes yng Nghymru. Yr "wythnos olaf" ym mis Mehefin fydd yr wythnos olaf sy'n cynnwys diwrnod gwaith olaf mis Mehefin, neu'r wythnos y mae'r cwrs yn dod i ben, os yw hynny ynghynt.

2.8 Ni fydd gan unigolion sy'n gymwys i gael grant hyfforddi ac sy'n ymuno â chwrs HCA ôl-raddedig sydd eisoes wedi dechrau neu'n gadael cwrs cyn iddo orffen ond â hawl i gael y taliadau misol sy'n daladwy ar gyfer y cyfnod y maent wedi cyrraedd ar y cwrs hyfforddi. Er enghraifft, os bydd rhywun yn ymuno â chwrs blwyddyn ym mis Rhagfyr 2010 dim ond ar gyfer y cyfnod o fis Rhagfyr i fis Mehefin y byddai hawl ganddynt gael taliadau.

2.9 Os bydd rhywun yn gymwys fel arall i gael grant hyfforddi, ond hefyd wedi derbyn peth neu'r cyfan o'r grant hyfforddi o dan y cynllun hwn neu unrhyw gynllun blaenorol yng Nghymru cyn 1 Medi 2010 (neu wedi cael unrhyw swm ar unrhyw adeg o unrhyw grant sy'n daladwy o ran cynlluniau cyfwerth yn Lloegr), bydd rhandaliadau'r grant hyfforddi y mae ganddynt hawl iddynt ar gyfradd ostyngedig lle bydd y gostyngiad yn cyfateb i nifer y rhandaliadau blaenorol a gafwyd o dan y grant.

2.10 Bydd grantiau hyfforddi i fyfyrwyr sy'n ailafael mewn cwrs neu'n dechrau ar gwrs lle mae mynediad wedi ei ohirio yn cael eu talu ar gyfradd y grant hyfforddi fydd yn gymwys yn y flwyddyn academaidd y bydd y myfyriwr yn ailymuno/ymuno â'u

cwrs hyfforddi, oni bai bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

2.11 Yn yr un modd, os bydd rhywun yn gymwys fel arall i gael grant hyfforddi, ond hefyd wedi derbyn grant o unrhyw swm o dan Reoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999 (bellach wedi'u diddymu) neu unrhyw reoliadau cyfwerth eraill sydd mewn grym ar y pryd yn Lloegr, ni fydd ganddynt ond yr hawl i grant hyfforddi ar gyfradd ostyngedig lle bydd y gostyngiad yn cyfateb i swm unrhyw grant blaenorol a dderbyniwyd o dan y rheoliadau hynny.

Pryd y dylid gwneud y taliadau

2.12 Dylai'r taliadau gael eu gwneud yn ystod wythnos olaf pob mis y maent i'w talu. Y darparwyr fydd yn penderfynu ar union ddyddiadau'r taliad, gan gofio'r diffiniad ar gyfer yr "wythnos olaf" ym mhob mis ym mharagraff 2.7 uchod.

2.13 Ni ddylai taliadau gael eu gwneud ond i'r myfyrwyr hynny sydd ar y cwrs ar ddyddiad y taliad. Os bydd unrhyw fyfyriwr wedi tynnu'n ôl cyn y dyddiad hwnnw, neu ar seibiant salwch tymor hir, ni ddylid gwneud y taliad.

2.14 Os bu myfyriwr ar seibiant salwch tymor hir neu os yw wedi gohirio ei astudiaethau ond am ailafael yn ei gwrs i gwblhau'r amser a gollwyd ganddo, bydd yn gymwys i gael cyllid am y cyfnod rhwng ailafael yn y cwrs a'i orffen. Mae hyn oll yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff 2.10 ac ni ddylai cyfanswm y taliadau fod yn uwch na'r symiau a nodir ym mharagraffau 2.4, 2.5 a 2.6.

Sut y telir y grantiau hyfforddi

2.15 Bydd myfyrwyr cymwys yn cael eu taliadau grant gan eu darparwyr HCA.

2.16 Ar ddechrau eu cyrsiau, gofynnir i fyfyrwyr lofnodi datganiad i'w galluogi i hawlio eu grant (ar 'Ffurflen TT 2010/11 – Atodiad A1').

2.17 Dylid nodi bod y ffurflen hon yn cynnwys eitem yn y datganiad sy'n gofyn i'r myfyriwr gadarnhau ei fod wedi darllen y cyfarwyddyd hwn.

2.18 Ar ddiwedd y cwrs dylai myfyrwyr sydd yn astudio mathemateg, ffiseg, cemeg, TGCh, dylunio a thechnoleg neu Gymraeg, dderbyn ffurflen a lofnodwyd gan eu darparwr HCA sydd yn cadarnhau eu bod wedi derbyn eu taliadau. Bydd yn rhaid i'r myfyrwyr gadw'r ffurflen hon i hawlio'u grant addysgu.

Adennill grantiau a dalwyd

2.19 Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i adennill grantiau a dalwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae ganddynt ddisgresiwn a fyddant yn gweithredu'r pwerau hyn ai peidio a byddant yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

2.20 Dyma'r achosion lle gall Gweinidogion Cymru arfer y pwerau hyn:-

a. lle bydd y derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o'r grant, yn methu â chwrdd ag unrhyw feini prawf cymhwysedd a fabwysiedir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â rhandaliad dilynol;

b. lle bydd y derbynnydd wedi rhoi yn ei gais am grant, neu mewn perthynas â hynny, wybodaeth sy'n anghywir neu'n gamarweiniol yn ei hanfod; neu

c. lle bo tystiolaeth gadarn nad oedd erioed yn fwriad gan y derbynnydd gwblhau'r cwrs neu, ar ôl ei gwblhau, fynd yn ei flaen i fod yn athro.

3. Grantiau addysgu

Y grantiau addysgu: crynodeb

3.1 Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg cryno o'r grantiau addysgu sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys a fydd yn cwblhau'n llwyddiannus gyrsiau a fydd yn dechrau rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011. Nid yw'n ymdrin â phob agwedd; rhoddir manylion llawn ynglŷn â phwy sy'n gymwys, yr amodau a'r ffordd i hawlio'r grantiau addysgu yn yr adrannau isod.

3.2 Bydd grant addysgu o £2,500 neu £5,000 yn daladwy i rai athrawon a fydd wedi hyfforddi ar gyrsiau ôl-raddedig mewn pynciau y rhoddir blaenoriaeth iddynt ar y lefel uwchradd ac a fydd yn dechrau rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011. Bydd grant addysgu o £2,500 neu £5,000 yn daladwy i athrawon sydd wedi eu hyfforddi mewn pwnc uwchradd y rhoddir blaenoriaeth iddo ac sy'n addysgu'r union bwnc hwnnw fel eu prif bwnc neu eu hunig bwnc, unwaith y gallant ddangos eu bod yn bodloni'r amodau cymhwyso eraill.

3.3 Yng Nghymru, ar 1 Medi 2010, y pynciau a ddynodwyd yn bynciau â blaenoriaeth ar y lefel uwchradd oedd: mathemateg, ffiseg, cemeg, TGCh, dylunio a thechnoleg a Chymraeg. Bydd grant addysgu o £5,000 yn daladwy ar gyfer mathemateg, ffiseg a chemeg a £2,500 ar gyfer TGCh, dylunio a thechnoleg a Chymraeg.

Y trefniadau yng Nghymru a Lloegr

3.4 Mae Gweinidogion Cymru a'r Adran Addysg wedi cytuno ar drefniadau taliadau cyfatebol ar gyfer y grantiau addysgu hyn. Golyga hyn fod athrawon cymwys sy'n cychwyn ar swyddi addysgu yng Nghymru neu Loegr yn gallu hawlio eu grant addysgu (sef yr 'Helô Aur' yn Lloegr) yn y wlad maent yn dysgu ynddi pan fyddant yn dod yn gymwys, p'un ai ydynt wedi hyfforddi yng Nghymru neu yn Lloegr.

3.5 Mae'r trefniadau hyn yn gymwys i athrawon sy'n addysgu pwnc uwchradd yr hyfforddwyd hwy ynddo sydd wedi ei ddynodi yn bwnc sy'n gymwys am grant addysgu yng Nghymru neu yn Lloegr fel y bo'n briodol. Ar 1 Medi 2010 mae rhestr y pynciau a lefelau'r taliadau grant addysgu yn wahanol yn Lloegr o'i chymharu â Chymru. Gellir gweld y rhestr a lefelau'r taliadau o dan y cynllun 'Helô Aur' yn Lloegr ar wefan yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion sef www.tda.gov.uk/Recruit/thetrainingprocess/fundinginengland/goldenhellos.aspx. Bydd athrawon yn gorfod dangos eu bod yn cwrdd â'r amodau cymhwyso sy'n gymwys yn y wlad maent yn dysgu ynddi er mwyn cael y grant.

3.6 Os yw'r athro yn cael ei gyflogi yng Nghymru pan fydd yn bodloni'r holl feini prawf cymhwyso, dylai hawlio ei daliad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai athrawon a gyflogir yn Lloegr pan fyddant yn bodloni'r holl feini prawf cymhwyso hawlio eu taliad gan yr awdurdod lleol sy'n eu cyflogi – gweler adran 12. Bydd y £2,500 neu'r £5,000 yn daladwy i unigolyn cymwys naill ai yng Nghymru, neu yn Lloegr, ond nid yn y ddwy wlad.

Bod yn gymwys i gael grantiau addysgu yng Nghymru

3.7 I fod yn gymwys i gael grant addysgu o hyd at £5,000, mae'n rhaid bod yr athro wedi hyfforddi ar gwrs HCA ôl-raddedig yng Nghymru neu yn Lloegr a ddechreuodd rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011, a'i fod yn astudio unrhyw un o'r pynciau canlynol ar lefel uwchradd fel eu hunig bwnc neu eu prif bwnc: mathemateg, ffiseg neu gemeg, a rhaid iddynt fodloni'r meini prawf a geir ym mharagraffau 3.9-3.10.

3.8 I fod yn gymwys ar gyfer grant addysgu o hyd at £2,500, mae'n rhaid bod athro wedi hyfforddi ar gwrs HCA ôl-raddedig yng Nghymru neu yn Lloegr a ddechreuodd rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011, a'i fod yn astudio unrhyw un o'r pynciau a ganlyn ar lefel uwchradd fel eu prif bwnc neu eu hunig bwnc: TGCh, dylunio a thechnoleg; neu Gymraeg; a rhaid iddynt fodloni'r meini prawf a geir ym mharagraffau 3.9-3.10.

3.9 Mewn achosion lle mae athro yn bodloni'r meini prawf a ddisgrifir uchod ym mharagraffau 3.7 neu 3.8, er mwyn bod yn gymwys am grant addysgu mae'n rhaid bod rhywun wedi:-

a. cael grant hyfforddi, neu gael swm llawn unrhyw grant sy'n daladwy o dan unrhyw drefniadau sy'n gymwys yn Lloegr y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fodlon eu bod yn cyfateb i'r rhai a wneir parthed grantiau hyfforddi mewn perthynas â'r Cynllun hwn ("grant hyfforddi yn Lloegr");

b. cwblhau'n llwyddiannus y cwrs HCA ôl-raddedig;

c. cwblhau'n llwyddiannus unrhyw gyfnod ymsefydlu yng Nghymru neu Loegr fel y bo'n ofynnol o dan reoliadau a wneir o dan Ddeddf Addysg 2002 sydd mewn grym ar y pryd[3]; a

d. o fewn 12 mis wedi cwblhau eu cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, eu bod wedi sicrhau cyflogaeth mewn swydd berthnasol ac wedi dechrau ar y swydd honno. Disgrifir eithriadau i'r terfyn amser hwn ym mharagraff 3.11 isod.

3.10 At ddibenion paragraff 3.9, "swydd berthnasol" yw:-

a. swydd mewn ysgol uwchradd a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru;

b. swydd barhaol neu swydd ar gytundeb am un cyfnod penodol gyda'r ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n para am o leiaf bedwar mis, yn amser llawn neu'n rhan amser; a

c. swydd lle mae'r athro dan gytundeb i addysgu, fan leiaf, mwy na 50% o'u hamser addysgu mewn pwnc a ddisgrifir uchod ym mharagraffau 3.7 neu

[3] Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 (SI 2005/1818) a Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2008 (S! 20080/657).

3.8 y mae'r athro wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs HCA ôl-raddedig ynddo ac wedi cael grant hyfforddi ar ei gyfer neu grant hyfforddi o Loegr.

3.11 Bydd y cyfnod 12 mis ym mharagraff 3.9(d) yn cael ei ymestyn o dan yr amgylchiadau canlynol:-

a. os na fydd athro yn gweithio oherwydd beichiogrwydd bydd y cyfnod o 12 mis rhwng cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus a chychwyn ar swydd berthnasol yn cael ei ymestyn i ddwy flynedd;
b. os ardystir gan feddyg nad yw rhywun yn ffit yn feddygol i weithio fel athro, bydd y cyfnod 12 mis rhwng cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus a dechrau ar swydd berthnasol yn cael ei ymestyn am y cyfnod y cânt eu hardystio felly; a
c. os bydd athro yn gofalu am rywun sy'n ddibynnol arnynt ar sail amser llawn, bydd y cyfnod o 12 mis rhwng cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus a chychwyn ar swydd berthnasol yn cael ei ymestyn i ddwy flynedd.

Sut y telir y grantiau addysgu yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

3.12 Ni ddylai athrawon gyflwyno eu ffurflen gais i Lywodraeth Cynulliad Cymru nes i'r amodau a ddisgrifir ym mharagraff 3.9 gael eu bodloni'n llawn. Unwaith y byddant wedi eu bodloni, mae'n rhaid gwneud y cais am daliad cyn pen 6 mis o'r adeg pan fyddant yn dechrau addysgu mewn swydd berthnasol.

3.13 Telir y grant addysgu mewn un cyfandaliad, unwaith y bydd yr athro yn gallu dangos ei fod yn bodloni'r meini prawf perthnasol a restrir ym mharagraffau 3.7-3.11 o ran bod yn gymwys. I hawlio'r taliad dylai'r athro lenwi'r adran berthnasol o'r ffurflen a gafodd pan oedd yn hyfforddi ("Ffurflen TT 2010/11 – Atodiad B2" yn achos myfyrwyr a wnaeth y cwrs hyfforddi yng Nghymru).

3.14 Dylai'r ffurflen gael ei chyflwyno i'w llofnodi i'r ysgol y cyflogir yr athro ynddi (ar ddechrau'r swydd berthnasol - h.y. ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu a bodloni'r gofyniad ym mharagraff 3.9(d)). Dylai'r ffurflen gael ei hanfon wedyn i'r Awdurdod Lleol (ALl) i gael cadarnhad fod yr athro yn bodloni'r amodau cyflogi. Os nad yr Awdurdod Lleol yw cyflogwr yr athro (e.e. os yw'r ysgol yn Ysgol Sefydledig neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir) dylai rhan 3 o'r ffurflen gael ei llofnodi gan Gadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol.

3.15 Pan fydd y ffurflen wreiddiol wedi cael ei llofnodi, gellir ei hanfon i Lywodraeth Cynulliad Cymru a fydd, ar ôl cadarnhau bod yr holl feini prawf perthnasol o ran bod yn gymwys wedi'u bodloni, yn talu'r grant addysgu yn uniongyrchol i gyfrif banc yr athro.

Adennill grantiau a dalwyd

3.16 Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i adennill grantiau a dalwyd yn gyfan gwbl neu ran ohonynt. Mae ganddynt ddisgresiwn i ymarfer y grymoedd hynny ai peidio a byddant yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

3.17 Gellid arfer y grymoedd hyn gan Weinidogion Cymru lle bydd y derbynnydd wedi darparu yn ei gais am grant, neu mewn perthynas â hynny, wybodaeth sy'n anghywir neu'n gamarweiniol yn ei hanfod.

Trefniadau ar gyfer athrawon sy'n gweithio yn Lloegr

3.18 Dylai athrawon a gafodd eu hyfforddi yng Nghymru ond a gyflogir yn Lloegr pan fyddant yn bodloni'r holl feini prawf cymhwyso, hawlio eu taliad gan yr Awdurdod Lleol sy'n eu cyflogi yn unol â'r cynllun priodol sy'n gymwys yn Lloegr. I hawlio taliad dylai'r athro lenwi adrannau perthnasol y ffurflen a gawsant pan oeddent yn cael eu hyfforddi yng Nghymru ("Ffurflen TT 2010/11 – Atodiad B2"). Dylid anfon hon i'w hysgol a fydd yn anfon y manylion ymlaen at Brif Swyddog Addysg eu Hawdurdod Lleol.

3.19 Pennir y meini prawf cymhwyso i athrawon sy'n gweithio yn Lloegr gan yr Adran Addysg. Gellir cael gafael arnynt drwy ysgrifennu at y School Workforce Unit, Department for Education, Sanctuary Buildings, Great Smith Street, London, SW1P 3BT neu ar wefan yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar http://www.tda.gov.uk/partners/funding/goldenhellos.aspx.

4. Cwestiynau cyffredin

Grantiau hyfforddi yng Nghymru

A oes treth ar y grant hyfforddi?

4.1 Ein dealltwriaeth ni yw nad yw'r grant hyfforddi yn drethadwy i fyfyrwyr amser llawn. Ar gyfer myfyrwyr rhan amser, gall y cyflog gael ei drethu, yn dibynnu pa mor uchel yw cyfanswm eich incwm trethadwy am unrhyw flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr siarad â Chyllid a Thollau ei Mawrhydi am gyngor am eu sefyllfa bersonol.

Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar gymorth arall a roddir i fyfyrwyr?

4.2 I fyfyrwyr sydd am gael cyllid i fyfyrwyr yn seiliedig ar incwm y cartref, ni chaiff grant hyfforddi ei ystyried yn rhan o'ch incwm ac ni ddylai gael ei gynnwys wrth gyfrifo eich incwm trethadwy sydd heb ei ennill.

Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar fudd-daliadau?

4.3 Nid oes dim rheolau pendant yn y fan hon – bydd yn dibynnu ar ba fath o incwm sy'n cael ei ystyried wrth asesu hawl i'r budd-dal neilltuol dan sylw. Gall yr Adran Gwaith a Phensiynau gynnig cyngor pellach.

A fydd y grant hyfforddi yn ysgogi ad-dalu benthyciad?

4.4 Na fydd, tra byddwch yn derbyn hyfforddiant amser llawn. Gallai ad-daliadau o'r benthyciad gael eu hysgogi pan fyddwch yn ennill cyflog fel athro – fel gydag unrhyw swydd arall. Os ydych yn hyfforddi'n rhan amser, bydd eich rhwymedigaeth yn dibynnu ar y ffaith a ydych hefyd yn ennill cyflog sy'n ddigon uchel i ysgogi ad-daliadau.

Grantiau addysgu yng Nghymru

Sut y telir y grant addysgu?

4.5 Cyn belled ag y bo'r holl feini prawf perthnasol o ran bod yn gymwys wedi'u bodloni, caiff y taliad ei wneud mewn un cyfandaliad yn syth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyfrif banc unigol yr athro. Mae'r taliad ar wahân i'w gyflog misol rheolaidd.

A oes taliadau i'w gwneud o'r grant addysgu mewn perthynas â threth incwm ac yswiriant gwladol?

4.6 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn tynnu unrhyw symiau wrth i'r taliad gael ei wneud ond ein dealltwriaeth ni yw bod y grant yn cael ei ystyried yn fonws safonol sy'n gysylltiedig â gwaith ac y bydd taliadau i'w gwneud mewn perthynas â threth incwm ac yswiriant gwladol. Dylai athrawon siarad â Chyllid a Thollau ei Mawrhydi am gyngor am eu sefyllfa bersonol eu hunain.

A fydd symiau yn cael eu tynnu o'r grant addysgu er mwyn ad-dalu'r benthyciad i fyfyrwyr?

4.7 Fel sy'n arferol gydag unrhyw fonws sy'n drethadwy, lle bo gan yr athro ddyled sydd heb ei thalu mewn perthynas â'r benthyciad i fyfyrwyr, mae'n debyg y bydd y grant addysgu yn cael ei ystyried wrth gyfrifo didyniadau mewn perthynas â'r benthyciad i fyfyrwyr.

A yw'r grant addysgu yn rhan o gyflog ac amodau statudol athrawon?

4.8 Na, nid yw'r grant addysgu yn rhan o gyflog ac amodau statudol athrawon.

A yw'r grantiau addysgu yn bensiynadwy?

4.9 Nac ydynt.

A fydd athrawon yn gymwys am y grant addysgu os bydd eu swydd gyntaf ar ôl cwblhau eu cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus yn rhan amser?

4.10 Cyn belled â'u bod yn cael eu cyflogi mewn swydd berthnasol (gweler adrannau 3.9-3.11) gall fod yn amser llawn neu'n rhan amser.

Cefais fy hyfforddi mewn pwnc heb flaenoriaeth ond roedd fy nghwrs yn cynnwys modiwl o bwnc â blaenoriaeth – a yw hyn yn fy ngwneud yn gymwys am grant addysgu?

4.11 Os cawsoch eich hyfforddi mewn pwnc uwchradd heb flaenoriaeth a oedd yn cynnwys modiwl neu fodiwlau ychwanegol mewn pwnc neu bynciau â blaenoriaeth ni fyddech yn gymwys am grant addysgu os mai'r pwnc heb flaenoriaeth oedd y prif bwnc o hyd. Mae cymhwysedd mewn perthynas â'r pwnc wedi ei seilio ar y prif bwnc y cawsoch eich hyfforddi ynddo ac y byddwch yn mynd yn eich blaen i'w addysgu; mae'n rhaid eich bod wedi derbyn grant hyfforddi hefyd.

4.12 Dyma'r pynciau cymwys y rhoddir blaenoriaeth iddynt ar gyfer y cyrsiau hynny sy'n dechrau rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011 (ôl-raddedig uwchradd i gyd): mathemateg, ffiseg, cemeg, TGCh, dylunio a thechnoleg a Chymraeg.

A yw athrawon cyflenwi yn gymwys i gael grant addysgu?

4.13 Cyn belled ag y bo'r holl feini prawf o ran bod yn gymwys wedi'u bodloni, mae athrawon cyflenwi yn gymwys i gael grant addysgu os oes ganddynt gytundeb o bedwar mis o leiaf gydag ysgol neu awdurdod lleol. Nid yw athrawon cyflenwi a gyflogir gan asiantaethau preifat yn gymwys i gael grant addysgu.

A yw athrawon yn gymwys am y grant addysgu os yw eu swydd addysgu mewn ysgol annibynnol, coleg chweched dosbarth, neu Sefydliad Addysg Bellach?

4.14 Na. At ddibenion hawlio'r grant addysgu, mae'n rhaid i'r 'swydd berthnasol' sydd ei hangen ar gychwyn eich cyfnod cyntaf o addysgu ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu yn llwyddiannus fod mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir.

Rydw i wedi cymhwyso i fod yn athro mewn gwlad yn Ardal Economaidd Ewrop[4] neu'r Swistir – ydw i'n gymwys i gael y grant addysgu?

4.15 Mae gan bersonau sy'n athrawon cymwysedig o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol)(Cymru) 2004, fel y'i diwygiwyd, am eu bod, o ran y proffesiwn athrawon ysgol, yn dod o fewn Rheoliadau Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007, yr hawl i gael grant addysgu ar yr un sail ag athrawon wedi'u hyfforddi yng Nghymru neu Loegr.

4.16 Os ydych wedi eich cymhwyso i fod yn athro mewn gwlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, mae'n rhaid eich bod wedi dilyn cwrs hyfforddi a ddechreuodd rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011 a'ch bod yn astudio'r pynciau sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 3.7 uchod fel eich unig bwnc neu eich prif bwnc i fod yn gymwys i gael grant addysgu o hyd at £5,000. I fod yn gymwys i gael grant addysgu hyd at £2.500 mae'n rhaid eich bod wedi dilyn cwrs hyfforddi a ddechreuodd rhwng mis Medi 2010 a mis Awst 2011 a'ch bod yn astudio'r pynciau a restrwyd ym mharagraff 3.8 uchod.

4.17 Yn ogystal â bodloni'r darpariaethau ym mharagraff 4.16 mae'n rhaid eich bod:-

a. (os yw'n ofynnol yn unol â'r rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.9(c) uchod) wedi cwblhau'n llwyddiannus unrhyw gyfnod ymsefydlu yng Nghymru neu yn Lloegr ac, o fewn deuddeg mis i hynny, eich bod wedi sicrhau cyflogaeth mewn swydd berthnasol ac wedi dechrau ar y swydd gan addysgu'r un pwnc; neu

b. (os nad yw'n ofynnol eich bod yn cwblhau cyfnod ymsefydlu) eich bod wedi sicrhau cyflogaeth mewn swydd berthnasol ac wedi dechrau ar y swydd gan addysgu'r un pwnc o fewn deuddeg mis wedi cwblhau tri mis o gyflogaeth mewn ysgol yn Ardal Economaidd Ewropeaidd neu yn y Swistir.

Bydd y cyfnod o 12 mis yn cael ei ymestyn o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff 3.11 uchod.

4.18 At ddibenion paragraff 4.17, "swydd berthnasol" yw:-

a. swydd mewn ysgol uwchradd a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru; a

[4] Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein.

b. swydd barhaol neu swydd ar gytundeb am un cyfnod penodol gyda'r ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n para am o leiaf bedwar mis, yn amser llawn neu'n rhan amser; a

c. swydd lle mae'r athro dan gytundeb i addysgu, fan leiaf, mwy na 50% o'i amser addysgu mewn pwnc a ddisgrifir uchod ym mharagraffau 3.7 neu 3.8 y mae'r athro wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs HCA ôl-raddedig ynddo.

4.19 Gan na fydd yr athro wedi cael ffurflen gais bydd angen iddo roi i Lywodraeth Cynulliad Cymru yr holl wybodaeth a fydd yn ofynnol i wneud asesiad. Bydd angen i'r athro roi copi o'i gymhwyster addysgu, ei dystysgrif Statws Athro Cymwysedig a chadarnhad ysgrifenedig o'i gontract cyflogaeth presennol. Rhaid i'r athro wneud cais am grant addysgu o fewn chwe mis o'r adeg pan fydd yn dechrau addysgu mewn swydd berthnasol.

Rydw i wedi cymhwyso i fod yn athro yn yr Alban/Gogledd Iwerddon – ydw i'n gymwys am y grant addysgu?

4.20 Nid oes dim trefniadau talu cyfatebol ar gyfer grantiau addysgu oddi mewn i'r gweinyddiaethau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, felly nid yw pobl sy'n cymhwyso i fod yn athro yn y gwledydd hynny yn gymwys i gael y grant addysgu yng Nghymru.

Enillais Statws Athro Cymwysedig drwy lwybr seiliedig ar gyflogaeth – ydw i'n gymwys i gael y grant addysgu?

4.21 Na. Nid yw athrawon a enillodd Statws Athro Cymwysedig drwy lwybrau seiliedig ar gyflogaeth yn gymwys i gael y grant addysgu.

ATODIAD

ADDYSG, CYMRU

2010 Rhif. 27

CYNLLUN CYMHELLIANT HYFFORDDI ATHRAWON 2010

Y Cefndir

1. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 14-17 Deddf Addysg 2002 i gynnig cymorth ariannol ar gyfer hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu. Caiff Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2010 ("y Cynllun hwn") ei wneud wrth arfer y pwerau hyn.

2. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2010 ac mae'n berthnasol i Gymru. Mae'r Cynllun hwn yn disodli Cynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon 2006 (2006 Rhif: 60) fel y'i diwygiwyd gan Gynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon (Diwygio) 2008 (2008 Rhif 34) ("Cynllun 2006") mewn perthynas â'r rheini y mae eu rhaglen hyfforddi yn cychwyn ar 1 Medi 2010 neu wedi hynny. Bydd darpariaethau Cynllun 2006 yn parhau i fod yn gymwys i'r rheini y dechreuodd eu rhaglen hyfforddi cyn 1 Medi 2010.

3. O bryd i'w gilydd ceir canllawiau ar wahân gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y Cynllun a dylai'r rheini sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth o dan y Cynllun ystyried y canllawiau hynny.

Crynodeb o'r Cynllun

4. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru dalu grantiau ar ffurf cymelliannau i bersonau cymwys ymgymryd â chwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru mewn pynciau penodedig ac i bersonau cymwys gymryd swyddi addysgu neilltuol mewn pynciau penodedig am leiafswm penodol o amser.

Dehongli

5. Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y Cynllun hwn –

ystyr "sefydliad achrededig" *("accredited institution")* yw sefydliad a achredir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan Reoliad 7 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 neu gan Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu Ysgolion o dan Reoliad 11 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2003, yn y ddau achos gan y gall rheoliadau gael eu diwygio neu eu disodli o bryd i'w gilydd;

ystyr "cyflogedig" (*"employed"*) yw bod yn gyflogedig o dan gontract cyflogaeth neu fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau heb fod o dan gontract cyflogaeth a chaiff "cyflogaeth" ("*employment*") ei ddehongli yn unol â hynny;

Ystyr “cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth” (“*employment-based teacher training scheme*”) yw cynllun a wneir o dan Reoliad 8 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 neu o dan unrhyw gynllun diwygiedig neu gynllun newydd a gyflwynwyd;

ystyr “ysgol a gynhelir” *(“maintained school”)* yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig yn ystyr Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

mae i "athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig" (“*qualified teacher*”) yr ystyr a roddir iddo gan adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002: sef “a person who satisfies requirements specified in regulations”[5].

ystyr “cwrs ôl-raddedig o hyfforddiant athrawon yng Nghymru neu yn Lloegr” *(“Welsh or English postgraduate teacher training course”)* yw cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ôl-raddedig llawn amser, rhan amser neu hyblyg, sy'n cael ei ddarparu mewn sefydliad achrededig yng Nghymru neu yn Lloegr. Yn y cyd-destun hwn mae "hyblyg" yn nodi bod hyd a phatrwm y cwrs wedi'i bennu gan gyfeirio at brofiad a gofynion hyfforddi'r myfyriwr;

ystyr “cwrs ôl-raddedig o hyfforddiant athrawon yng Nghymru” *(“Welsh postgraduate teacher training course”)* yw cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ôl-raddedig llawn amser, rhan amser neu hyblyg, sy'n cael ei ddarparu mewn sefydliad achrededig yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn mae "hyblyg" yn nodi bod hyd a phatrwm y cwrs wedi'i bennu gan gyfeirio at brofiad a gofynion hyfforddi'r myfyriwr.

Grantiau cymell

6. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru dalu grantiau o dan y paragraff hwn (“grantiau hyfforddi”) ar ffurf cymelliannau i bersonau sy’n bodloni’r gofynion ym mharagraff 9 a’r rhai yn naill ai paragraff 10, 11 neu 12, i ymgymryd â chwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru.

7. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru dalu grantiau o dan y paragraff hwn (“grantiau addysgu”) ar ffurf cymelliannau i bersonau sy’n bodloni’r gofynion ym mharagraff 11 a’r rhai ym mharagraff 13 neu baragraff 14 i fynd i swyddi addysgu penodol am leiafswm penodol o amser.

8. Mae’r grantiau sydd ar gael o dan y Cynllun hwn yn ddarostyngedig i’r amodau a nodir ym mharagraffau 20-26.

[5] y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, OS 2004/1729 fel y’u diwygiwyd gan OS 2007/2811 a 2008/215.

Bod yn gymwys i gael grantiau hyfforddi

9. I fod yn gymwys i gael grant hyfforddi, mae'n rhaid i rywun fodloni'r gofynion canlynol sef:-

a. ei fod yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru;

b. ei fod yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer myfyrwyr sy'n gymwys o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 sydd mewn grym ar yr adeg y maent yn gwneud cais am y cwrs hwnnw[6];

c. nad yw eisoes yn athro cymwysedig;

d. nad yw'n cael ei gyflogi i addysgu mewn ysgol neu ryw sefydliad addysg arall fel athro;

e. nad yw'n cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth; a

f. nad yw'n ymgymryd â chwrs addysg bellach o unrhyw fath.

10. I fod yn gymwys i gael grant hyfforddi hyd at £9,000, rhaid bod person yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru a oedd yn cychwyn ar 1 Medi 2010 neu ar ôl hynny, ac yn astudio fel pwnc cyfan neu fel eu prif bwnc un neu ragor o'r canlynol: mathemateg, ffiseg, cemeg, Cymraeg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) neu ddylunio a thechnoleg ar lefel uwchradd.

11. I fod yn gymwys i gael grant hyfforddi hyd at £6,000, rhaid bod person yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru a oedd yn cychwyn ar 1 Medi 2010 neu ar ôl hynny, ac yn astudio fel pwnc cyfan neu fel eu prif bwnc un neu ragor o'r canlynol: bioleg, cwrs cyffredinol neu gyfun mewn gwyddoniaeth, Saesneg, cerddoriaeth, addysg grefyddol, daearyddiaeth neu ieithoedd modern ar lefel uwchradd.

12. I fod yn gymwys i gael grant hyfforddi hyd at £4,000, rhaid bod person yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru a oedd yn cychwyn ar ôl 1 Medi 2010 heblaw ar gwrs yn astudio unrhyw un o'r pynciau a restrir ym mharagraffau 10 a 11 ar lefel uwchradd.

Bod yn gymwys i gael grantiau addysgu

13. I fod yn gymwys i gael grant addysgu hyd at £5,000, rhaid bod person wedi'i hyfforddi ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru neu yn Lloegr a oedd yn cychwyn ar 1 Medi 2010 neu ar ôl hynny gan astudio mathemateg, ffiseg neu gemeg ar lefel uwchradd fel ei unig bwnc neu ei brif bwnc, a rhaid iddo fodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraff 15.

[6] Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2009 OS 2009/2737.

14. I fod yn gymwys i gael grant addysgu hyd at £2,500, rhaid bod person wedi'i hyfforddi ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru neu yn Lloegr a oedd yn cychwyn ar 1 Medi 2010 neu ar ôl hynny, yn astudio Cymraeg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) neu ddylunio a thechnoleg ar lefel uwchradd fel ei unig bwnc neu ei brif bwnc a rhaid iddo fodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraff 15.

15. Os bydd person yn bodloni'r meini prawf a ddisgrifir ym mharagraffau 13 neu 14, er mwyn bod yn gymwys i gael grant addysgu, rhaid bod person:-

a. wedi cael

   i. grant hyfforddi, neu

   ii. swm llawn y grant sy'n daladwy o dan unrhyw drefniadau sy'n gymwys yn Lloegr y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fodlon eu bod yn cyfateb i'r rhai a wneir parthed grantiau hyfforddi mewn perthynas â'r Cynllun hwn ("grant hyfforddi yn Lloegr"); a

b. wedi cwblhau'n llwyddiannus y cwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru neu yn Lloegr;

c. wedi cwblhau'n llwyddiannus unrhyw gyfnod ymsefydlu yng Nghymru neu Loegr sy'n ofynnol o dan reoliadau a wneir o dan Ddeddf Addysg 2002 sydd mewn grym ar y pryd[7] a

d. o fewn 12 mis wedi cwblhau eu cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, eu bod wedi sicrhau cyflogaeth mewn swydd berthnasol ac wedi dechrau ar y swydd honno.

16. At ddibenion paragraff 15, ystyr "swydd berthnasol" yw:-

a. swydd mewn ysgol uwchradd a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru;

b. swydd barhaol neu un ar gontract am un cyfnod penodol gyda'r ysgol neu'r awdurdod lleol sydd yn para am o leiaf bedwar mis, yn amser llawn neu'n rhan amser; ac

c. un lle mae athro dan gontract i addysgu, fan leiaf, am fwy na 50% o'i amser addysgu, bwnc y cwblhaodd yr athro yn llwyddiannus gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig ynddo yng Nghymru neu yn Lloegr a chael grant hyfforddi neu grant hyfforddi o Loegr ar ei chyfer.

[7] Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 (OS 2005/1818 (W.146)) a Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2008 (OS 20080/657).

17. Caiff y cyfnod 12 mis ym mharagraff 15(d) ei ymestyn o dan yr amgylchiadau canlynol:-

a. os na fydd person yn gweithio oherwydd beichiogrwydd, caiff y cyfnod o 12 mis rhwng cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus a dechrau ar swydd berthnasol ei ymestyn i ddwy flynedd;

b. os caiff person ei ardystio gan feddyg yn anffit yn feddygol i weithio, caiff y cyfnod o 12 mis rhwng cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus a dechrau ar swydd berthnasol ei ymestyn am y cyfnod y cafodd y person ei ardystio'n anffit yn feddygol; a

c. os yw rhywun yn gofalu am ddibynnydd yn amser llawn, caiff y cyfnod o 12 mis rhwng cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus a dechrau ar swydd berthnasol ei ymestyn i ddwy flynedd.

Amodau

18. Ni thelir grant o dan baragraffau 6 a 7 i berson onid yw wedi gwneud cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y ffurf, ar yr adeg a chan gynnwys y manylion hynny y caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu arnynt.

19. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl ei disgresiwn beidio â thalu grant hyfforddi i fyfyrwyr a gafodd eu derbyn ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru ar ôl i'r targed derbyn ar gyfer y cwrs hwnnw, fel y nodwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gael ei gyrraedd.

20. Bydd gan berson sy'n gymwys i gael grant hyfforddi ac sy'n ymuno â chwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru sydd eisoes wedi cychwyn, neu sy'n ymadael â'r cwrs cyn ei gwblhau, yr hawl i gael swm sy'n gymesur i'r amser y mae wedi ei dreulio ar y cwrs hyfforddi mewn cyfnodau o fisoedd llawn yn unig.

21. Bydd gan berson sydd fel arall yn gymwys i gael grant hyfforddi ac sydd hefyd wedi cael grant hyfforddi neu grant hyfforddi o Loegr a fydd yn cyfateb i unrhyw swm cyn 1 Medi 2010, yr hawl i gael grant hyfforddi lle bydd y gostyngiad yn cyfateb i nifer y rhandaliadau blaenorol a dderbyniwyd. Mae grantiau hyfforddi i fyfyrwyr sy'n ailafael ar gwrs neu'n dechrau ar gwrs a gafodd ei ohirio yn cael eu talu ar y gyfradd grant hyfforddi sy'n gymwys yn y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn ymuno/ailymuno â'r cwrs hyfforddi, oni fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

22. Bydd gan berson sydd fel arall yn gymwys i gael grant hyfforddi ac sydd hefyd wedi cael grant o unrhyw swm o dan Reoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999 neu unrhyw reoliadau cyfatebol sy'n gymwys ar y pryd yn Lloegr, ond yr hawl i gael grant hyfforddi ar gyfradd ostyngedig lle bydd y gostyngiad yn cyfateb i swm unrhyw grant blaenorol a dderbyniwyd o dan y rheoliadau hynny.

23. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw grant a dalwyd yn unol â pharagraffau 6 a 7 gael eu had-dalu yn gyfan neu'n rhannol:-

a. lle bydd y derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o'r grant, yn methu â chwrdd ag unrhyw feini prawf cymhwysedd a fabwysiedir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â rhandaliad dilynol;

b. lle bydd y derbynnydd wedi rhoi yn ei gais am grant, neu mewn perthynas â hynny, wybodaeth sy'n anghywir neu'n gamarweiniol yn ei hanfod; neu

c. lle bo tystiolaeth gadarn nad oedd erioed yn fwriad gan y derbynnydd gwblhau'r cwrs neu, ar ôl ei gwblhau, fynd yn ei flaen i fod yn athro.

Talu grant

24. Gellir talu'r grantiau o dan baragraffau 6 a 7 mewn un cyfandaliad neu mewn rhandaliadau ac ar yr adegau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu arnynt, a chaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benodol benderfynu bod rhandaliadau yn daladwy ar ddyddiadau a gaiff eu pennu ar ôl i'r person ddechrau ar ei swydd addysgu fel athro cymwysedig.

25. Yn achos unrhyw grant hyfforddi sy'n daladwy tra bydd person yn ymgymryd â chwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru, caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyllid i sefydliad achrededig ar gyfer y cyfryw daliad i'r person hwnnw ar yr adegau hynny y bydd yn eu nodi.

Gweinyddu

26. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru roi i sefydliadau achrededig sy'n cael cyllid o dan baragraff 25 grant hyd at 2% o gyfanswm y cyllid a geir mewn cydnabyddiaeth o'r costau gweinyddol a chostau cysylltiedig sy'n ymwneud â thaliadau o dan y paragraff hwnnw.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes